**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/00274/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Deisebau@senedd.cymru

1 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr ynghylch Deiseb P-05-1129, sy'n galw am fesurau deddfwriaethol nawr i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio'r system lesddaliadol yng Nghymru.

Rwyf eisoes wedi croesawu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio'r system lesddaliadol yng Nghymru a Lloegr fel cam mawr tuag at newidiadau angenrheidiol ac rwyf ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o weithredu ar y cynigion hyn.  Er hynny, yn ogystal ag adroddiadau Comisiwn y Gyfraith a thystiolaeth adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ddiwygio lesddaliadau, rwyf hefyd yn disgwyl i'r ymchwil i brofiadau lesddeiliaid yng Nghymru gael ei gyhoeddi'n y dyfodol agos.  Unwaith y byddaf wedi gweld yr holl dystiolaeth, byddaf yn cyhoeddi fy mwriadau ar gyfer gwneud lesddaliadau'n decach yng Nghymru.

Er fy mod yn deall y pryderon ynghylch yr alwad yn y ddeiseb hon i'r newidiadau hyn ddigwydd yn syth, fe wyddoch bod tymor y Senedd hon yn dirwyn i ben yn fuan, cyn yr etholiad, ac nid yw'n bosibl, o dan y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol, i ni gynnig a gweithredu deddfwriaeth o'r fath cyn diwedd y tymor hwn.  Er y byddaf yn nodi fy mwriadau ar gyfer diwygio'r system lesddaliadol yn fuan, bydd yr weinyddiaeth nesaf, ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai, yn nodi ei hagenda ddeddfwriaethol ei hun, ac nid yw'n briodol i mi geisio rhagweld hynny ar hyn o bryd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n benderfynol o weithredu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ogystal â nifer o feysydd eraill sydd angen sylw yn y system lesddaliadol. Fe wnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford, hefyd ddatgan yn glir ein bwriad i fwrw ymlaen â’r gwaith i ddiwygio’r system lesddaliadol a chyfunddaliadol yn ei ddatganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol ar 16 Gorffennaf, gan gynnwys y materion hynny a fyddai angen mesurau deddfwriaethol lle bo hynny’n briodol.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government